⁴⁴ Daw'r holl ffigyrau, oni nodir yn wahanol, o YouGov Plc. Nifer yr oedolion a holwyd oedd 1,064. Casglwyd y data rhwng 19 a 23 Awst 2011. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi'u pwysoli ac yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

⁴⁵ Daw'r holl ffigyrau, oni nodir yn wahanol, o arolwg YouGov Plc. Cyfanswm y sampl oedd 1,015 o oedolion yng Nghymru. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 19 a 21 Medi 2012. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi'u pwysoli ac maent yn cynrychioli holl oedolion Cymru (18+).

Cŵn peryglus a chŵn statws

NIFER Y DIGWYDDIADAU O DAN ADLAN 1 DEDDF CŴN PERYGLUS 1991

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae cŵn 'statws' a bridiau sydd wedi'u gwahardd (e.e. daeargwn pydew, ac ati) yn gallu mynd yn gŵn peryglus oherwydd fod llawer ohonynt yn anifeiliaid pwerus sy'n cael eu cyflyru i'w defnyddio yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Maent hwy eu hunain yn aml yn dioddef creulondeb eu hunain, anogir yr anifeiliaid hyn i fod yn ymosodol a'u gorfodi i ymladd cŵn eraill. Yn y blynyddoedd diwethaf cafwyd cynnydd ym mherchnogaeth 'cŵn statws' (ar hyn o bryd mae cŵn bridiau tarw a mathau mastiff yn boblogaidd), a chaiff hyn yn aml ei briodoli i fridio diwahân ar lawer o stadau tai mawr. Oherwydd fod gormod ohonynt wedi'u bridio, cafwyd cynnydd yn nifer y cŵn bridiau tarw sy'n cael eu gadael, eu hesgeuluso a'u trin yn greulon.

Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Deddf Cŵn Peryglus 1991.

Deddf Cŵn Peryglus (Diwygiad) 1997.

Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992.

Deddf Cŵn 1871.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae'r RSPCA yn cydweithio â'r heddlu, yr awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i addysgu cymunedau lleol ynghylch bod yn berchnogion cyfrifol ar gŵn, ac i annog gorfodi effeithiol ar ddeddfwriaeth rheoli a lles cŵn. Mae hyn wedi cynnwys prosiectau arloesol sy'n rhoi cyngor, yn ysbaddu, yn gosod microsglodion ac yn gweithredu mesurau ymarferol eraill i fynd i'r afael â'r broblem 'ci statws' mewn ardaloedd penodol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a mudiadau lles anifeiliaid eraill a phan brofir bod y prosiectau hyn yn llwyddiannus rydym yn gobeithio y gellir eu hymestyn i gymunedau eraill.


Dengys data mai parhau i gynyddu y mae nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â chŵn peryglus, gyda'r pedwar heddlu yng Nghymru yn 2010/11 wedi gwario £109,172 ar y mater hwn – cynnydd o 61 y cant ers 2009/10.³⁷ Mae ffigyrau Heddlu De Cymru yn y graff isod yn dangos nifer y digwyddiadau o dan Adran 1³⁸ y Ddeddf Cŵn Peryglus rhwng 2007 a 2011. Yn 2007 adroddwyd am ddau ddigwyddiad yn unig, cododd hyn i 103 yn 2010 ac yn 2012 deliodd yr heddlu â 76 digwyddiad.

»» Argymhelliaid yr RSPCA

Dymunâ'r RSPCA i'r deddfau presennol ynghylch rheoli cŵn gael eu hadolygu, eu hatgyfnerthu a'u diweddarau yng Nghymru. Mae'r RSPCA wedi drafftio deddfwriaeth arfaethedig a fyddai'n diweddarau'r ddeddfwriaeth bresennol ac fe'i cefnogir gan yr heddlu, awdurdodau lleol a'r RSPCA, sef y prif gyrff sy'n gorfodi'r ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn canolbwyntio ar atal, a galluogi'r asiantaethau gorfodaeth i ymyrryd yn gynnar yn ogystal â gwella diogelwch y cyhoedd a lles anifeiliaid, a lleihau costau. Waeth beth yw ei frid neu ei fath, mae gan unrhyw gi y potensial i fod yn beryglus. Mae angen datblygu rhaglenni addysg wedi'u targedu a'u cydlynu er mwyn cynorthwyo i ddarbwylo perchnogion cŵn i fod yn gyfrifol, ac i sicrhau fod cŵn yn cael eu bridio yn fwy cyfrifol. Rydym yn mawr obeithio y bydd yr arfaethedig a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2012. Pan ofynnwyd iddynt yn ein harolwg ym mis Medi 2012, dywedodd 84 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru eu bod yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i ddeddfu ar gŵn peryglus a pherchnogion anghyfrifol.

Nifer y digwyddiadau yn ymwneud â chŵn adran 1 2007-2011*

*hyd at 31 Gorffennaf 2011. Ffynhonnell data: Heddlu De Cymru



Mae 84% yn cefnogi cynigion i ddeddfu ar gŵn peryglus a pherchnogion anghyfrifol

³⁷ Data wedi'i godi o gais gan y Blaid Lafur dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i'r holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

³⁸ Mae Adran 1 y Ddeddf yn cynnwys pedwar o fridiau cŵn sydd wedi'u gwahardd.

³⁹ Daw'r holl ffigyrau, oni nodir yn wahanol, o arolwg YouGov Plc. Cyfanswm y sampl oedd 1,015 o oedolion yng Nghymru. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 19 a 21 Medi 2012. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi'u pwysoli ac maent yn cynrychioli holl oedolion Cymru (18+).



Cŵn nad oes ar neb eu heisiau

NIFER Y CŴN IACH DIEISIAU SY'N CAEL EU RHOI I OFAL YR RSPCA

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae 43 y cant o holl aelwydydd Cymru yn berchen ar anifail anwes, ac o'r aelwydydd hyn mae gan 61 y cant ohonynt gi.³² Mae hyn yn golygu bod pobl yng Nghymru yn berchen ar o leiaf 786,900 o gŵn, er ei bod yn debygol bod degau o filoedd yn fwy na hyn gan fod sawl aelwyd â mwy nag un ci. Mae'n hawdd cael gafael ar gi o amryw eang o lefydd gwahanol; mae modd eu prynu ar fympwy, ac wrth gael yr anifail yn ifanc ac yn fach nid yw llawer o bobl yn rhoi fawr o ystyriaeth i'r hyn y mae bod yn berchen ar gi yn ei olygu i'w ffordd o fyw, i'w hamser ac i'w cyllid. Yn ôl ymchwil diweddar, nid oes ci bellach gan un o bob pump o bobl a brynodd gi bach yn y ddwy flynedd diwethaf.³³ Heb ystyried yr effaith ar eu ffordd o fyw eu hunain, y costau sydd ynghlwm, a heb y wybodaeth neu'r gallu i ofalu amdanynt yn iawn, mae perchnogion yn aml yn cael gwared ar eu cŵn, gan adael iddynt fynd i grwydro neu eu rhoi i ganolfannau achub neu ailgartrefu. Caiff rhai eu rhoi i ffrindiau neu deulu, neu eu hysbysebu ar wefannau, a bydd rhai yn cael eu rhoi i gysgu, un ai ar gais eu perchennog neu oherwydd bod gormod o anifeiliaid dieisiau a dim digon o gartrefi iddynt.

Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Nid oes unrhyw fformat wedi'i sefydlu i ganfod yn union faint o gŵn nad oes ar neb eu heisiau neu faint o ganolfannau achub ac ailgartrefu sydd yna yng Nghymru. Fodd bynnag cofnododd Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes (CAWES) fod bron i 3,000 o fusnesau yn 2010-2011 yn gweithredu fel bridwyr cŵn, siopau anifeiliaid anwes a llochesau anifeiliaid.³⁴

I gael gwybod faint o anifeiliaid anwes nad oes ar neb eu heisiau sydd yng Nghymru, caiff data gan yr RSPCA ei ddefnyddio i ddangos pa mor eang yw'r broblem. Yn 2011, daeth 573 o gŵn i ofal canolfannau a changhennau anifeiliaid y Gymdeithas, a phob un yn chwilio am berchennog newydd. Yn 2011 bu i'r awdurdodau lleol yng Nghymru ddelio â 10,230 o gŵn strae a gafodd wedyn eu hailgartrefu, eu difa neu eu rhoi i fudiad lles anifeiliaid.³⁵

Mae'n rhaid cael mwy o wybodaeth gan yr holl ganolfannau/sefydliadau ailgartrefu yng Nghymru er mwyn gwybod pa mor fawr yw'r broblem cŵn dieisiau mewn gwirionedd. Gellid cyflawni hyn yn rhannol drwy reoleiddio sefydliadau/llochesau lles anifeiliaid (gweler y dangosydd Llochesau) a hefyd drwy gyfuno data perthnasol.

Argymhelliad yr RSPCA

Byddai'r RSPCA yn hoffi gweld bod nifer y cŵn sy'n cael eu bridio yn cyd-fynd â nifer y cartrefi cyfrifol sydd ar gael. Yn y pen draw lleihau yn sylweddol fyddai nifer y cŵn nad oes unrhyw un eu heisiau yng Nghymru hyd nes y byddai'r broblem yn peidio â bodoli. Dylai anifeiliaid anwes gael eu bridio yn gyfrifol, a chŵn wedi'u magu i fod yn hapus, yn iach ac yn addas i fod yn anifail anwes – gan felly fod yn llai tebygol o gael eu hailgartrefu neu eu gadael oherwydd problemau ymddygiad. Dylid hefyd addysgu perchnogion a'u hannog yn gryf i ystyried anghenion hirdymor eu hanifeiliaid er mwyn i lai o anifeiliaid fod angen cartrefi/perchnogion newydd. Dylid hefyd annog pobl i ystyried ailgartrefu ci o fudiad lles anifeiliaid, ac i gael eu ci wedi'i ysbaddu fel rhan o fod yn berchenogion cyfrifol.

Yn 2011 bu i'r awdurdodau lleol yng Nghymru ddelio â 10,230 o gŵn strae

³² <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/compendia2009/110224/?skip=1&lang=cy>

³³ Cyfnewid sampl o 7,272 o oedolion y Deyrnas Unedig rhwng 16 a 24 oed. O'r rhain roedd 848 o bobl wedi cael ci bach yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Cynhaliwyd y cyfnewid drwy arolwg hunanlenwi ar-lein rhwng 23 Tachwedd 2010 ac 20 Ionawr 2011.

³⁴ 3,273 o siopau anifeiliaid anwes, bridwyr cŵn a llochesau trwyddedig, heb eu trwyddedu ac wedi'u heithrio <http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/110915cawesbaselineen.pdf>

³⁵ Data mewn datganiad i'r wasg gan yr Ymddiriedolaeth Cŵn, Medi 2012.



Ewthanasia

NIFER Y CŴN A GAFODD EU DIFA

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae yna nifer o resymau pam fod cŵn yn cael eu rhoi i gysgu neu eu difa, gan gynnwys anafiadau, salwch, clefyd neu ymddygiad. Yn anffodus, caiff milfeddygon, awdurdodau lleol a mudiadau lles anifeiliaid eu gorfodi i ddifa rhai ohonynt oherwydd nad oes ar neb eisiau'r anifeiliaid hyn ac/neu oherwydd methu â dod o hyd i gartrefi newydd iddynt. Yn syml iawn, mae yna ormod o gŵn yn cael eu magu, yn enwedig rhai bridiau neu groes-fridiau; nid oes digon o gartrefi da ar gael; ac nid yw rhai perchnogion cŵn yn fodlon cymryd cyfrifoldeb am eu hanifeiliaid. Canlyniad hyn yw bod cŵn y gellid eu hailgartrefu yn cael eu difa'n ddiangen.

Deddfwriaeth

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 – gweithredwyd yn Ebrill 2008.


Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae'n anodd iawn canfod faint o gŵn y byddai modd eu hailgartrefu sy'n cael eu difa yng Nghymru bob blwyddyn. Bydd milfeddygon, ar gais y perchnogion neu'r gofalwyr neu ar gais mudiadau lles anifeiliaid ac awdurdodau lleol, yn rhoi cŵn nad oes ar neb eu heisiau i gysgu, ond nid yw'n hawdd dod o hyd i'r ystadegau yma ac ni chânt eu casglu'n genedlaethol. Felly, rhaid ystyried y data a gasglwyd gan yr RSPCA a'r awdurdodau lleol fel ciplun yn unig o'r gwir sefyllfa o ran ewthanasia.

Yn 2011, rhoddodd yr RSPCA derfyn ar fywyd 30 o gŵn nad oedd ar neb eu heisiau ond y gellid fod wedi eu hailgartrefu, sydd i lawr o 33 yn 2010.³⁰ Er bod y ffigyrau hyn yn weddol isel – dim ond chwech y cant o'r cŵn a oedd â'r potensial i gael eu hailgartrefu a roddwyd i gysgu gan yr RSPCA – mae'r ffigwr hwn yn parhau'n annerbyniol.

Nifer y cŵn a roddwyd i gysgu yng Nghymru (data'r RSPCA ac Awdurdodau Lleol)



Argymhelliad yr RSPCA

Hoffai'r RSPCA weld dyfodol lle na roddir unrhyw gi sydd â'r potensial i gael ei ailgartrefu i gysgu. Yr unig ffordd i gyflawni hyn yw i berchnogion, gofalwyr a bridwyr anifeiliaid fabwysiadu agweddau mwy cyfrifol tuag at anifeiliaid anwes. Gall perchnogion cŵn weithredu'n ymarferol, er enghraifft, trwy drefnu ysbaddu eu hanifeiliaid er mwyn arbed beichiogrwydd diangen, a defnyddio technoleg microsglodyn i helpu awdurdodau lleol ac eraill i ddychwelyd cŵn at eu perchnogion. Gall gwerthwyr anifeiliaid wella lles drwy roi gwybodaeth ac arweiniad i berchnogion newydd neu rai posib. Yn syml, cyn i unrhyw un fabwysiadu neu brynu ci, dylid gofyn y cwestiwn: "A yw ef/hi yn ddifffuant yn credu y bydd ef/hi yn gallu, ac yn bwriadu, diwallu anghenion iechyd a lles y ci bach yn y dyfodol?" Golyga hyn ddiwallu holl anghenion lles y ci am weddill ei oes.

³⁰ Data mewnol yr RSPCA.

³¹ Data'r Ymddiriedolaeth Cŵn – gweler y dangosydd Cŵn Strae. 15

Llochesau

NIFER Y LLOCHESAU ANIFEILIAID HEB EU RHEOLEIDDIO

PRYDERON LLES ANIFEILIAID


Nid oes modd gwybod beth yw safon gofal i gŵn mewn llochesau. Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r RSPCA ac awdurdodau lleol wedi eu gorfodi i weithredu yn erbyn lleoliadau sydd wedi'u hysbysebu fel llochesau. Yn y sefyllfaoedd yma, ni ddaeth y wybodaeth i'r golwg nes bod yr anifeiliaid eisoes wedi dioddef yn sylweddol a thros gyfnod o amser. Gall achosion fel hyn brofi'n gostus dros ben gan eu bod yn aml yn ymwneud â nifer fawr o anifeiliaid. Heb ddeddfwriaeth a fydd yn darparu archwiliadau blynyddol a hapwiriadau, nid oes unrhyw fodd o arbed dioddefaint o'r math hwn.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) yn cynrychioli detholiad o fudiadau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid ledled Cymru, ac ar hyn o bryd mae ganddo 24 aelod o'r 153 sydd wedi diffinio eu hunain fel lloches. O'r 24 hyn, dywed 17 eu bod yn trin yn uniongyrchol ag anifeiliaid anwes fel cŵn.

Yn ôl data'r Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes (CAWES), rhestrwyd 85²⁶ lloches yng Nghymru.²⁷ Oherwydd diffyg diffiniad cydnabyddedig ar problemau ynglŷn â chofnodi data cyson ar draws yr awdurdodau lleol perthnasol, gallai'r ffigwr hwn fod lawer yn uwch. Yn ddiweddar cyflwynodd Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru adolygiad i Lywodraeth Cymru o'r achos dros reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid neu 'Llochesau' yng Nghymru,²⁸ ac roedd yr adolygiad wedi cynnwys ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol yn ogystal â derbyn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ganddynt.

Nifer y llochesau anifeiliaid yng Nghymru, 2008–2011²⁹



Argymhelliad yr RSPCA

Mae angen deddfwriaeth er mwyn canfod pa mor addas yw lleoliadau a sgiliau'r staff sydd yn gweithio ynddynt er mwyn amddiffyn pob anifail a gedwir mewn lloches. Drwy gynllun trwyddedu lle byddai modd adfer yr holl gostau i'r awdurdodau lleol, gellid sicrhau archwiliadau blynyddol a fyddai'n cynnwys arbenigwr milfeddygol, yn ogystal â darpariaethau ar gyfer hapwiriadau. Cred yr RSPCA fod mesurau o'r fath yn hanfodol er mwyn amddiffyn lles anifeiliaid mewn llochesau.

Cyd-destun

Mae gan Lywodraeth Cymru y modd i gyflwyno cynllun i reoleiddio llochesau anifeiliaid o dan Adran 12 Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Ar hyn o bryd, ni all awdurdodau lleol gael mynediad i safleoedd o'r fath heb yn gyntaf wneud cais am warant ar sail pryderon digonol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod sawl lloches yn agored i'r cyhoedd. Mae amryw o llochesau yng Nghymru yn darparu gwasanaeth gofal tymor hir, adferiad ac ailgartrefu anifeiliaid, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw ffordd o atal dioddefaint mewn lleoliadau nad ydynt yn cyrraedd safonau gofal cyfreithiol anifeiliaid.

²⁶ Dyma nifer cyfartalog y llochesau dros y tair blynedd 2008–2011.

²⁷ <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/pets/cawes/?skip=1&lang=cy>

²⁸ Mae adroddiad y Rhwydwaith i'w weld yn: www.awnwales.org

²⁹ <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/pets/cawes/?skip=1&lang=cy>

Erlyniadau

NIFER Y COLLFARNAU O DAN DDEDDF LLES ANIFEILIAID 2006

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Aeth Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ati yn arwyddocaol iawn i ddiweddar Deddf Diogelu Anifeiliaid 1911, gan yn bwysicach na dim gyflwyno trosedd lles.²¹ Mae hyn yn rhoi dyletswydd gofal ar unigolyn sy'n gyfrifol am anifail i gymryd camau rhesymol i sicrhau fod anghenion yr anifail yn cael eu diwallu yn ôl yr hyn a ddisgwylir o fewn arfer da. Yn y cyfamser, cyflwynwyd codau ymarfer er mwyn hybu lles cŵn, yn ogystal â chwningod, cathod a cheffylau. Er bod cŵn yng Nghymru wedi eu diogelu'n well nag erioed o'r blaen, yn enwedig yn sgil cyflwyno'r drosedd lles, eto ceir adegau pan fo'n rhaid erlyn am droseddau yn erbyn anifeiliaid.

Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Cyd-destun

Gall yr RSPCA ac eraill erlyn troseddwyd o dan amrywiof gymalau o ddeddfwriaeth yn ymwneud â lles anifeiliaid. Mae'r RSPCA wedi gweithredu'r rhan fwyaf o erlyniadau, a cholffarnau wedi hynny, o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.


Y SEFYLLFA BRESENNOL

O'r 60,000 galwad ffôn a dderbynia llinell greulondeb yr RSPCA o Gymru bob blwyddyn, ymchwiliwyd i 11,152 ohonynt wedi hynny fel cwynion, a chafodd 570 o gŵn eu casglu, eu hachub, eu trosglwyddo neu eu hatafael gan swyddogion yr RSPCA. Cafwyd 239 collfarn yng Nghymru o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid o ganlyniad i erlyniadau a wnaed gan yr RSPCA.

Mae nifer y collfarnau o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid wedi cynyddu 39 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.²² Yn 2011, cafwyd 99 collfarn yng Nghymru am y drosedd creulondeb i gŵn o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid²³ a 52 collfarn am fethu â darparu ar gyfer lles cŵn.²⁴ Mae nifer y Gorchmynion Anghymwyso a osodwyd o dan y ddeddf wedi dyblu yn ystod y ddwy flynedd gyda 52 unigolyn yn 2010 a 101 unigolyn yn 2011 wedi cael eu hatal rhag cadw neu fod yn berchen ar anifeiliaid, ac roedd 59 o'r rhain yn ymwneud yn benodol â chŵn.²⁵

Mae nifer y collfarnau o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid wedi cynyddu 39% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Collfarnau'r RSPCA a gafwyd mewn Llysoedd Ynadon, 2010–2011



»» Argymhelliad yr RSPCA

Mewn byd delfrydol, ni fyddai esgeulustra a chreulondeb i anifeiliaid yn bodoli, ac ni fyddai angen ymchwilio i achosion o'r fath, heb sôn am fod angen erlyn drwy lys barn. Yn ymarferol nid dyma'r sefyllfa, a thra bod yr RSPCA yn parhau i hyrwyddo addysg a dulliau ataliol i roi terfyn ar ddioddefaint, bydd yr angen i erlyn yn dal yn angenrheidiol ar adegau. Yn ddelfrydol, bydd nifer y collfarnau am dynnu'n groes i ddeddfwriaeth lles anifeiliaid yn gostwng yng Nghymru bob blwyddyn.

²²RSPCA Prosecutions Department Annual Report 2011, t.29. www.rspca.org.uk/ImageLocator/LocateAsset?asset=document&assetId=1232729605371&mode=prd

²³Deddf Lles Anifeiliaid 2006, a4.

²⁴Ibid, a9.

²⁵Ibid, a34. 13



Bridio cŵn bach

NIFER Y SEFYDLIADAU BRIDIO CŴN – TRWYDDEDIG A DIDRWYDDED

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae yna nifer o faterion yn ymwneud â bridio cŵn sydd yn achosi llawer o bryder i'r RSPCA. Mae'r rhain yn cynnwys materion lles ac iechyd sy'n gysylltiedig â magu cŵn pedigri, bridwyr anghyfrifol neu 'ffermwyr cŵn bach', a safonau a gorfodi cyfredol yn ymwneud â bridwyr trwyddedig.

Deddfwriaeth

Deddf Bridio Cŵn 1973, Deddf Bridio Cŵn 1991 a'r diwygiadau i'r ddwy yn Neddf Bridio a Gwerthu Cŵn 1999.
Deddf Lles Anifeiliaid 2006.


Cyd-destun

Mae gan Lywodraeth Cymru y grym i ddiddymu'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, sef Deddf Bridio Cŵn 1973, a'i disodli â Rheoliadau newydd. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2010 gan y Llywodraeth i adolygu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau er mwyn ystyried y ddarpariaeth a nodwyd yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006.¹⁹ Derbyniwyd dros 500 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynigion i newid y ddeddfwriaeth gyfredol. Cynhaliodd yr RSPCA ymgyrch i annog mwy o ymateb gan y cyhoedd i ail ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Mai 2012, ac fe ddenwyd mwy na 1,500 o ymatebion. Disgwylir cyhoeddiad ynghylch deddfwriaeth yn hydref 2012.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae data Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes (CAWES) ar gyfer bridio cŵn yn rhestru bron i 2,000 o sefydliadau sy'n bridio cŵn yng Nghymru.¹⁹ Yn ôl y data a gasglwyd o 2008 i 2011 mae'r cynnydd mwyaf yn niferoedd y categori sydd wedi'u 'heithrio', hynny yw, y perchnogion cŵn bridio sydd wedi eu heithrio rhag angen trwydded yn ôl y ddeddfwriaeth. Yn 2008/2009, rhes-trwyd 533 o sefydliadau; cododd y nifer i 1,587 yn 2010/11. Mae'r cynnydd hwn yn ganlyniad gwaith awdurdodau lleol a Phrosiectau Arbennig y Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes yn adnabod ac yn ymchwilio i fasnachu ar y we, bridio cŵn, a mân hysbysebion yn gwerthu cŵn bridio yn y categori hwn. Mae nifer y sefydliadau bridio cŵn didrwydded wedi gostwng yn sylweddol gan fod bridwyr yn cael eu symud i'r ddau gategori arall o ganlyniad i well ymchwilio ac adnabod, a gweithredu yn ôl y galw.

Nifer y sefydliadau bridio cŵn yng Nghymru, 2008–2011



Argymhelliad yr RSPCA

Mae'r RSPCA yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Rheoliadau newydd a fydd yn rhoi mwy o rymoedd i ddelio ag arfer gwael yn y diwydiant bridio cŵn, yn enwedig y cynigion sydd yn mynnu bod angen i fwy o fridwyr gael trwydded a'i gwneud yn orfodol gosod microsglodyn ar gŵn. Mae'r RSPCA hefyd yn awyddus i gynnwys yr hyn a fu'n 'ganllawiau' yn safonau gorfodol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gorfodi, sef ei gwneud yn angenrheidiol i unrhyw un sydd â dwy neu fwy o geist bridio i gael trwydded, cael cronfa ddata microsglodyn sy'n gadarn ac yn debyg i'r DVLA; medru tystiolaethu lleiafswm cymhareb staff i gŵn yn ogystal â dangos yn glir y gellir diwallu anghenion pob ci bob dydd.

¹⁹Cyfanswm o 1,987 o fridwyr cŵn trwyddedig, heb eu trwyddedu ac wedi'u heithrio – data wedi'i gasglu ar gyfer prosiect data gwaelodlin CAWES 2010/11 <http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/110915cawesbaselineen.pdf>

²⁰<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2010/100707dog/?skip=1&lang=cy>



Cŵn strae

FFIGYRAU YNGHYLCH CŴN STRAE A GASGLWYD GAN AWDURDODAU LLEOL

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Awdurdodau lleol sy'n gwbl gyfrifol am gŵn strae yng Nghymru a nhw sydd felly yn ysgwyddo baich perchnogion anifeiliaid anghyfrifol sy'n gadael i'w cŵn grwydro. Gall nifer o bethau posibl ddigwydd ar ôl codi ci sy'n crwydro, sef unwaith mae yn y 'system'. Yn ddelfrydol, caiff pob ci ei ddychwelyd at ei berchennog neu geidwad, ond yn anffodus nid yw hyn yn digwydd bob tro. O ran cŵn strae iach nad oes modd eu dychwelyd at eu perchnogion, mae awdurdodau lleol yn eu hailgartrefu yn syth i'r cyhoedd, neu yn eu rhoi i fudiadau lles anifeiliaid ac elusennau ailgartrefu, neu, mewn rhai achosion, yn eu rhoi i gysgu oherwydd anaf/salwch ar ôl y cyfnod saith niwrnod statudol.¹¹ Mae hyn i gyd yn rhoi baich ariannol ar bawb perthnasol ac mae'r canlyniadau o ran lles yn golygu bod cŵn yn dioddef yn ddiangen. Dyfarnwyd Ôl Troed Cymunedol Lles Anifeiliaid Cŵn Strae yr RSPCA i saith o'r 22 awdurdod lleol yn 2012, a gobeithiwn fedru annog y gweddill hefyd.¹²

Deddfwriaeth

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 – gweithredwyd yn Ebrill 2008.
Deddf Lles Anifeiliaid 2006.
Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992, adran 1 1992/901, erthygl 2(1).

Y sefyllfa wleidyddol

Mae awdurdodau lleol yn wynebu toriadau sylweddol i'w cyllidebau ac felly mae hi hyd yn oed yn anoddach i rai ohonynt fodloni eu gofynion statudol sylfaenol i ddarparu gofal i gŵn strae. Gallai cynigion Llywodraeth Cymru i osod microsglodion gorfodol ym mhob ci yng Nghymru fod yn gymorth yn hyn o beth.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Yn y flwyddyn ariannol yn gorffen Ebrill 2012, casglwyd 10,230 o gŵn strae gan awdurdodau lleol Cymru.¹³ Mae hyn yn costio cyfanswm o fwy na £2 filiwn y flwyddyn i awdurdodau lleol yng Nghymru, ar gost am bob ci yn amrywio o £58.19 (ym Merthyr Tudful) i £758.61 (yn Sir Benfro).¹⁴ Mewn ymdrech i leihau'r baich¹⁵ ar awdurdodau lleol, rydym wedi ceisio defnyddio data o ffynonellau eraill, serch hynny am y rheswm hwn mae'n anodd cymharu nifer y cŵn strae flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd nad oes modd i ni gael gafael ar y cwestiynau na'r gyfradd ymateb. Nid yw ychwaith yn bosibl dweud o'r data faint o'r cŵn hyn sy'n cael eu dychwelwyd at eu perchennog, eu hailgartrefu yn uniongyrchol neu eu rhoi i elusennau ailgartrefu; fodd bynnag, mae'r data yn dangos bod 543 wedi'u difa sy'n cyfateb i bump y cant o gyfanswm nifer y cŵn strae a gesglir.

**Cefnoga 82% o'r cyhoedd
yng Nghymru gynllun
gorfodol i gofrestru cŵn
bob blwyddyn**

Argymhelliad yr RSPCA

Mae nifer y cŵn strae a gesglir yn sylweddol iawn, ond ni wyddom faint ohonynt sy'n cael eu dychwelyd at eu perchnogion. Un ffordd o gynorthwyo awdurdodau lleol i aduno cŵn â'u perchnogion yw drwy annog perchnogion a cheidwaid i osod microsglodion ar eu cŵn. Gall gosod microsglodion helpu wrth brofi perchnogaeth anifail ac mae'n ddefnyddiol iawn wrth ymdrin ag achosion o ddwyn anifeiliaid anwes, creulondeb a chŵn strae. Mae'r RSPCA yn sylweddoli bod yn rhaid i berchnogion cŵn ymddwyn yn fwy cyfrifol drwy sicrhau bod gan eu ci goler a thag,¹⁶ ac mae'n annog gosod microsglodion i leihau nifer y cŵn strae yn y tymor hir yn ogystal ag ysbaddu er mwyn leihau ysfa cŵn i grwydro yn y lle cyntaf. Calondid i'r RSPCA yw bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cynllun gorfodol i osod microsglodion, serch hynny, mae'n hanfodol bod hwn yn gysylltiedig â chynllun gorfodol i gofrestru cŵn yn flynyddol – cefnogir y math hwn o gynllun gan 82 y cant argyhoeddiadol o'r cyhoedd yng Nghymru.

¹⁶Mae'n ofyniad cyfreithiol ar berchennog i sicrhau bod eu ci yn gwisgo coler sydd ag enw a chyfeiriad y perchennog arno pan fo'r ci ar briffordd neu mewn man cyhoeddus.
¹⁷Daw'r holl ffigyrau, oni nodir yn wahanol, o arolwg YouGov Plc. Cyfanswm y sampl oedd 1,015 o oedolion yng Nghymru. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 21 Medi 2012. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi'u pwysoli ac maent yn cynrychioli holl oedolion Cymru (18+).
¹⁸Ffynhonnell y data: RSPCA / awdurdodau lleol / yr Ymddiriedolaeth Cŵn.



¹¹Yn ôl Adran 6 Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, mae'n rhaid cadw ci am saith niwrnod cyn y gellir ei waredu, hynny yw ei ailgartrefu neu ei ddifa.

¹²Yn yr Ôl Troed Cŵn Strae, llwyddodd Wrecsam i gael platinwm, enillodd Sir Ddinbych aur, a llwyddodd Caerffili, Caerdydd, Ynys Môn, Casnewydd a Sir Benfro i gael arian. Gweler: www.politicalanimal.org.uk/area/local-government/community-animal-welfare-footprints

¹³Data mewn datganiad i'r wasg gan yr Ymddiriedolaeth Cŵn, Medi 2012.

¹⁴Canlyniadau o geisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gellir eu canfod yn: www.houndmistress.co.uk

Ymwybyddiaeth y cyhoedd

CYFRAN Y BOBL SY'N GWYBOD PWY I GYSYLLTU Â HWY YNGLŶN Â CHŴN STRAE, BAW CŴN A CHREULONDEB I ANIFEILIAID

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Perchnogion anghyfrifol sy'n caniatáu i gŵn grwydro'n rhydd ac i faeddu, a thrwy fod yn anghyfrifol maent yn gosod baich ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol. Os na ddychwelir cŵn strae at eu perchnogion, cânt eu hailgartrefu, eu rhoi yng ngofal elusennau lles anifeiliaid neu fudiadau ailgartrefu, neu eu difa. Nid yn unig y mae baw ci yn annymunol, mae hefyd yn beryglus i iechyd y cyhoedd oherwydd yr haint tocsocariasis sy'n gallu effeithio ar blant a chŵn. Yn 2006, daethpwyd o hyd i faw cŵn yn 14% o strydoedd ac ym 57% o barciau Cymru.⁸

Deddfwriaeth


Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 – gweithredwyd yn Ebrill 2008.
Deddf Lles Anifeiliaid 2006.
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gŵn strae. Mae ganddynt hefyd y grym i gyflwyno ac i weithredu gorchmynion rheoli cŵn o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd (2005), sy'n cynnwys cosbau llym am faeddu. Yn ogystal, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dros gadw priffyrdd a thiroedd cyhoeddus yn glir o faw ci. Er nad oes gan yr RSPCA gyfrifoldeb cyfreithiol dros gŵn strae, maent yn gyson yn derbyn galwadau gan bobl sy'n ansicr â phwy i gysylltu â hwy parthed cŵn strae. Os nad yw'r cyhoedd yn gwybod pwy yw'r bobl iawn i'w hysbysu am gi strae, gallai'r ci ddioddef os na chaiff ei godi. Er mwyn canfod a yw'r cyhoedd yng Nghymru yn gwybod â phwy i gysylltu â nhw i adrodd am gŵn strae, comisiynodd yr RSPCA arolwg barn. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn cwestiwn i geisio canfod a oedd yna ymwybyddiaeth ynglŷn â phwy y dylid cysylltu parthed baw cŵn.⁹ O blith y rheiny a holwyd, dywedodd 37% o oedolion y byddent yn cysylltu â'r RSPCA yn gyntaf er mwyn adrodd am gi strae, gyda 34% yn dweud y byddent yn cysylltu â'u hawdurdod/cyngor lleol yn gyntaf. Dywedodd 11% arall y byddent yn galw'r heddlu. Pan ofynnwyd iddynt am gŵn yn baeddu, dywedodd 81% y byddent yn cysylltu â'u hawdurdod lleol, gyda dim ond tri y cant yn galw'r RSPCA.

Gofynnwyd hefyd i'r cyhoedd â phwy y byddent yn cysylltu'n gyntaf pe byddent am roi gwybod am anifail y gwelsant yn cael ei drin yn greulon, RSPCA oedd ateb 75 y cant, yr heddlu 18 y cant ac awdurdodau lleol un y cant. Hefyd yn ddiddorol, y pwnc cyffredinol uchaf yn ymwneud â chŵn sy'n pryderu'r cyhoedd fwyaf oedd cŵn peryglus/ymosodol yn 27 y cant, yna baw ci yn 26 y cant ac yna perchnogion cŵn anghyfrifol (h.y. perchnogion nad ydynt yn gofalu am les a buddiannau eu cŵn) yn 25 y cant.

Pwy fyddai'r cyhoedd yn cysylltu â hwy gyntaf i adrodd am greulondeb i ananifail?¹⁰



Argymhelliad yr RSPCA

Gan fod y mwyafrif o bobl Cymru yn gwybod â phwy y dylent gysylltu ynglŷn â baw cŵn, mae'n debyg fod ymgyrchoedd awdurdodau lleol neu fudiadau fel Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod yn llwyddiannus wrth drosglwyddo'r neges. Cymharol isel yw'r ymwybyddiaeth am gyfrifoldebau awdurdodau lleol parthed cŵn strae, ac felly dylid ceisio addysgu'r cyhoedd ymhellach ynghylch pwy y dylent gysylltu â hwy.

⁸Cadwch Cymru'n Daclus www.keepwalestidy.org/campaigns/dogfouling?diablo.lang=cym

⁹Daw'r holl ffigurau, oni nodir yn wahanol, o arolwg YouGov Plc. Cyfanswm y sampl oedd 1,015 o oedolion yng Nghymru. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 19 a 21 Medi 2012. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli ac maent yn cynrychioli holl oedolion Cymru (18+).

¹⁰Ibid.



»» GALWADAU FFÔN

Ar gyfartaledd mae'r RSPCA yn cael 60,000 o alwadau o Gymru bob blwyddyn, sy'n cyfateb i 1 o bob 50 o bobl.

»» GWAITH ADDYSG

Y 2011 bu inni addysgu 208 o fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon yng Nghymru ynghylch sut i gynnwys addysg lles anifeiliaid yn eu haddysgu.

»» CYFANSWM COLLFARNAU

239o gollfarnau wedi'u sicrhau yn llysoedd Cymru yn 2011.

»» AROLYGWYR AR LAWR GWLAD

Gwasanaeth 24/7 wedi'i ddarparu gan 29 o Arolygwyr, chwe Swyddog Casglu Anifeiliaid, pedwar Swyddog Lles Anifeiliaid, tri Phrif Arolygwr, ac un Uwch-arolygydd.

»» CANOLFANNAU A CHLINIGAU

14 cangen sy'n gwasanaethu Cymru gyfan, dwy ganolfan anifeiliaid wedi'u rhedeg gan y Gymdeithas ac un ganolfan anifeiliaid wedi'i rhedeg gan gangen yn ogystal â chlinig pwrpasol sy'n gwasanaethu ardal Merthyr Tudful.

»» NIFER YR ANIFEILIAID WEDI'U TRIN

Fe wnaeth swyddogion yr RSPCA gasglu, achub, atafaelu neu dderbyn cyfanswm o 9,034 o anifeiliaid yng Nghymru yn ystod 2011.

»» HAFAN ANIFEILIAID ANWES

PetRetreat yw cynllun maethu'r RSPCA ar gyfer anifeiliaid anwes i gynorthwyo dioddefwyr sy'n ffoi rhag cam-drin domestig:
www.rspca.org.uk/petretreat

Ystadegau RSPCA Cymru

FFEITHIAU A FFIGYRAU PWYSIG YNGHYLCH GWAITH YR RSPCA YNG NGHYMRU

»» CŴN WEDI’U GADAEI

Yn 2011 cafodd 144 o gŵn eu gadael yng Nghymru sef cynnydd syfrdanol o 55 y cant ers 2010.

»» CŴN WEDI’U HAILGARTREFU

Cafodd 573 o gŵn eu hailgartrefu gennym yng Nghymru yn 2011.

»» NIFER Y CŴN WEDI’U TRIN

Cyfanswm nifer y cŵn a gafodd eu casglu, eu hachub, eu trosglwyddo neu eu hatafael gan Arolygwyr yn 2011 oedd 570.

»» CŴN WEDI’U HYSBADDU A CHAEL MICROSGLODYN

Cafodd 1310 o gŵn ficrosglodyn gan yr RSPCA yn 2011, a chafodd 1340 eu hysbaddu.

»» CŴN YN EIN GOFAL

Ar gyfartaledd mae ci mewn canolfan anifeiliaid yr RSPCA – o adeg cyrraedd i gael ei fabwysiadu – am 52 diwrnod, a phob ci yn costio o leiaf £500 i ni yn ystod ei arhosiad yng Nghymru.

Cyflwyniad

Mae Dangosyddion Lles Cŵn Cymru yn dwyn ynghyd am y tro cyntaf gasgliad o ddangosyddion sy'n taflu goleuni ar les cŵn, ac mae'n dilyn ymlaen o adroddiad Dangosyddion Lles Anifeiliaid Cymru 2011¹ a oedd yn edrych ar ystod ehangach o faterion a rhywogaethau.

Mesur lles anifeiliaid

Cipolwg yn unig yw'r casgliad hwn ar ddangosyddion rhai o'r materion pwysig sy'n ymwneud â lles cŵn yng Nghymru ac mae'n dioddef, fel y gwna unrhyw fynegai, dan ddwylo'r data. Mae'r RSPCA ers tro byd wedi cydnabod pwysigrwydd mynd ati i fesur lles anifeiliaid (gweler: www.politicalanimal.org.uk/key-facts-and-figures) ond mae heriau yn parhau o ran cael gafael ar ddata, cloddio amdano a dadansoddi data o ffynonellau eraill. Mae colled aruthrol ar ôl Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes (CAWES)² Llywodraeth Cymru a oedd, ymysg gwaith gwych arall, wedi casglu data gwaelodlin, a dylid ailystyried y cynllun yng nghyllidebau'r Llywodraeth yn y dyfodol. Gwyddom o arolwg y Llywodraeth ar gartrefi³ yn 2010 fod gan un o bob pedwar cartref yng Nghymru o leiaf un ci ac felly gwyddom fod yna o leiaf dri-chwarter miliwn o gŵn, ond diau fod cannoedd, os nad miloedd, yn fwy. Mae ffeithiau a ffigyrau fel y rhain, a'r gweddill sydd mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn, yn hanfodol bwysig os ydym i wella bywydau anifeiliaid, a hynny oherwydd ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth o broblemau. Am y rheswm hwn rydym wedi bod â rhan allweddol, ynghyd â Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru,⁴ wrth sefydlu Gweithgor Data gyda phartneriaid statudol ac anstatudol, er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

Ffeithiau a ffigyrau

Yn aml, disgwylir i adroddiadau fel y rhain roi newyddion gwael yn unig, ond mae yna lawer i'w ddathlu; er enghraifft enillodd Cyngor Sir Penfro wobwr Arloeswr Unedol Cymru 2012 yng ngwobrau Ôl Troed Cymunedol Lles Anifeiliaid yr RSPCA (CAWF), am ei waith yn cyflwyno model amodau trwyddedu newydd ar gyfer sefydliadau anifeiliaid sy'n ymwneud â bridio cŵn a llety i gŵn. Hefyd, yn y categori ôl-troed cŵn strae llwyddodd Wrecsam i gael platinwm, enillodd Sir Ddinbych aur, a Chaerffili, Caerdydd, Ynys Môn, Casnewydd a Sir Benfro wedi llwyddo i gael arian.⁵ Ymgymrodd yr RSPCA hefyd â'r erlyniad cyntaf yn dilyn cyflwyno'r gwaharddiad ar ddefnyddio coleri sioc drydanol yng Nghymru ac ni fu unrhyw erlyniad wedi hynny, gallwn obeithio fod y gyfraith hon – sy'n unigryw i Gymru – yn gweithredu fel grym atal effeithiol ac yn annog perchennog cŵn i fabwysiadu dulliau hyfforddi cadarnhaol.

Yn ddi-os, erys problemau sylweddol mewn safonau lles cŵn yng Nghymru fel y dengys tudalennau'r adroddiad hwn. Mewn ymdrech i fynd i'r afael â hyn, mae'r RSPCA wedi cyhoeddi 3,500 copi o'r Cod Ymarfer ar gyfer Cŵn yng Nghymru ers dechrau ei roi i'r perchnogion hynny, gellid dadlau, sydd fwyaf ei angen. Hoffem weld mudiadau lles cŵn eraill yn efelychu hyn er mwyn sicrhau nad oes yr un ci yn cael ei ailgartrefu heb roi copi o hwn. Mae hefyd yn bwysig fod perchnogion yn cael eu haddysgu ynghylch costau bod yn berchen ar gi. Amrywiol amcangyfrifon o £650 i fwy na £1,000 y flwyddyn, a llawer o gŵn yn byw yn hirach na 15 mlynedd. Mae cost gosod microsglodyn ar gi yn amrywio ond gall fod yn rhad ac

am ddim (neu am bris isel iawn o £5 i £10) os yw perchennog y ci yn bodloni meini prawf a osodwyd gan ystod o elusennau anifeiliaid, gan gynnwys yr RSPCA ymhlith nifer o rai eraill. Os nad ydynt yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth neu'n dewis cael milfeddyg i'w osod, amcangyfrifa Cymdeithas Milfeddygon Prydain y dylai gostio rhwng £15 ac £20, neu os caiff ei osod gan eu hawdurdod lleol amcangyfrifa Cymdeithas Genedlaethol Wardeniaid Cŵn y dylai gostio rhwng £10 ac £20.⁶

Yn sgil ein gwaith ar y rheng flaen, mae'r RSPCA yn llwyr argyhoeddedig os yw gosod microsglodion yn mynd i weithio, yna rhaid iddo fod yn gysylltiedig â chynllun cofrestru blynyddol. O wybod bod gwasanaethau cŵn strae yng Nghymru yn costio cyfanswm o dros £2 filiwn y flwyddyn i awdurdodau lleol, mae er lles pawb bod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn gweithio i leihau'r gost a gwella lles cŵn fel ei gilydd. Mae Prif Weinidog Cymru hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i ddeddfu ar faterion rheoli cŵn drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r RSPCA wedi galw amdano ers amser ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Llywodraeth ar y mater hwn. Problem sydd wedi'i hamlygu'n glir mewn adroddiadau gan y CWU⁷ yw bod 200 o weithwyr post yng Nghymru yn dioddef ymosodiad gan gŵn bob blwyddyn ac mae hyn fel petai'n cefnogi ymhellach ein harolwg yn 2012 ymhlith Aelodau'r Cynulliad – roedd 22 o'r 30 a ymatebodd wedi cadarnhau bod ci ymosodol wedi eu brathu neu eu herlid nhw neu eu tîm (neu eu bod wedi dod ar draws ci o'r fath) wrth iddynt ganfasio neu ddosbarthu taflenni yn y pum mlynedd diwethaf a chytunodd 18 hefyd nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar reoli cŵn yn ddigonol.

Y Dangosyddion

Mae pob un o'r dangosyddion yn yr adroddiad hwn yn nodi'r pryderon yn ymwneud â lles, yn rhestru cyfreithiau perthnasol ac yn amlinellu'r sefyllfa bresennol. Caiff argymhellion ar gyfer gwella eu hawgrymu a rhoddir sylw i ystadegau allweddol. Rydym bob amser wedi defnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael, sydd ynddo'i hun yn amlygu problem. Yn y dyfodol y gobaith yw y bydd mynd ati i fesur, casglu data a chyhoeddi ystadegau yn digwydd yn rheolaidd er mwyn gallu nodi tueddiadau, ac i'r wybodaeth hon gael ei bwydo i mewn i benderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar les cŵn.

Yn ogystal â meincnodi a dangos 'lle rydym' o ran lles anifeiliaid yng Nghymru, bwriad cyhoeddiad o'r natur hwn yw ceisio procio'r meddwl, annog newid a gwneud argymhellion ar sut y gellir gwneud gwelliannau. Mae'n bwysig am nifer o resymau, nid yn unig o safbwynt diogelu anifeiliaid, ac mae'n hanfodol ar gyfer hysbysu llywodraeth yn genedlaethol ac yn lleol, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd yng Nghymru. Y gobaith yw y gall fod yn ganllaw gwerthfawr i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru o ran lles anifeiliaid ac arwain at adnabod a delio â phroblemau, sicrhau atebion, ac ailadrodd dysgu cadarnhaol ledled gwahanol feysydd.

¹www.awnwales.org Mae'r RSPCA yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ac adnoddau ar gyfer y Rhwydwaith hwn.

²www.politicalanimal.org.uk/area/local-government/community-animal-welfare-footprints

³www.politicalanimal.org.uk/RSPCA/RSPCA%20Submission%20Compulsory%20Microchipping%20Dogs%20WG%20Consultation.pdf

⁷Wales This Week, 24 Gorffennaf 2012.

Rhagair

JOHN GRIFFITHS AC, GWEINIDOG YR AMGYLCHEDD A DATBLYGU CYNALIADWY

Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi achub ar y cyfleoedd a gyflwynir drwy Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i ddatblygu polisiau yn ein Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid er mwyn gwella safonau lles anifeiliaid ledled Cymru. Mae Deddf Lles Anifeiliaid (2006) wedi rhwyddhau rheoliadau ar docio cynffonnau, coleri sioc, lles anifeiliaid a ffermir, lles anifeiliaid wrth eu cludo a newidiadau eraill i ieir bwyta ac ieir dodwy. Mae wedi galluogi cyflwyno Codau Ymarfer ar gyfer lles ceffylau, cŵn, cathod a chwingod yn ogystal ag ar gyfer gwartheg, defaid, moch, ieir dodwy ac adar hela sy'n cael eu ffermio.

Mae'r adroddiad hwn gan yr RSPCA yn amserol iawn ac yn tynnu sylw at yr angen am gydweithio i wella lles cŵn. Rydym yn y Llywodraeth wedi parhau i weithio ar gynigion penodol sy'n ymwneud â gwella lles cŵn, sef microsglodion gorfodol, bridio cŵn bach ac annog pobl i fod yn berchnogion cyfrifol.

Ni fyddai'n bosibl trafod safonau lles anifeiliaid yng Nghymru heb gydnabod cyfraniad yr RSPCA. Yng Nghymru maent yn gwneud mwy o waith gorfodaeth lles anifeiliaid na'r cyrff statudol ffurfiol, yn enwedig mewn eiddo domestig. Mae'n galonogol bod yr RSPCA hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r heddlu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw lles anifeiliaid i'r cyhoedd yng Nghymru. Dangosodd ein harolgwr peilot ein hunain fod gan un o bob pedwar o aelwydydd Cymru o leiaf un ci. Nid cyfaill ffyddlon yn unig yw cŵn, mae llawer ohonynt yn chwilio ac yn achub; rhai yn gŵn cymorth; eraill yn gwneud gwaith hanfodol gyda'r heddlu i ddiogelu'r cyhoedd ac, wrth gwrs, mae eraill yn gweithio ar ffermydd. Mae cŵn yn cyffwrdd â'n bywydau mewn sawl ffordd ac rydym am wneud yn siŵr eu bod yn cael eu diogelu'n briodol rhag dioddefaint. Croesawaf yr adroddiad hwn gan yr RSPCA ac edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio â nhw, ac eraill, wrth amddiffyn cŵn yn ein cymdeithas.



John Griffiths

STEVE CARTER, CYFARWYDDWR CENEDLAETHOL RSPCA CYMRU

Mae'r RSPCA yn falch iawn o gynhyrchu'r set gyntaf o ddangosyddion lles cŵn yng Nghymru. Mae'n arbennig o amserol gan mai dyma'r flwyddyn y mae gan Lywodraeth Cymru raglen gref ar gyfer deddfu pellach i wella bywydau cŵn yng Nghymru. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyflwyno Cod Ymarfer ar gyfer cŵn ac i wahardd coleri sioc, ac yn awr gall fod ymhell o flaen y gweddill eto wrth reoleiddio ynghylch bridio cŵn bach a chyflwyno microsglodion gorfodol. Rhoddodd RSPCA Cymru hefyd groeso cynnes i gyhoeddiad y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf ynghylch Mesur Rheoli cŵn i Gymru.

Yn ystod 2012, cynhaliodd yr RSPCA ymgynghoedd arloesol ar y we, a thrwyddynt gofynnodd miloedd o Gymry i'r Llywodraeth dynhau ymhellach eu cynigion ar fridio cŵn bach ac i gael y cynllun gorfodol arfaethedig i osod microsglodion ar gyfer cŵn wedi'i gysylltu â chofrestru blynyddol – rhywbeth y credwn sy'n hanfodol i lwyddiant y fenter honno. Ymhelaethir ar y materion hyn ar dudalennau'r adroddiad hwn wrth inni geisio rhoi cipolwg o'r hyn sy'n digwydd o ran lles cŵn yng Nghymru heddiw.

Mae'n anrhydedd mawr inni unwaith yn rhagor fod y Gweinidog wedi bod yn ddigon caredig i ysgrifennu rhagair ar gyfer yr adroddiad; mae'n dangos, fe gredwn, y berthynas waith dda sydd gennym gyda Llywodraeth Cymru. Dyma rywbeth yr ydym yn ceisio'n gorau i'w adlewyrchu yn ein holl bartneriaethau, sy'n cynnwys Aelodau'r Cynulliad, Awdurdodau Lleol, yn ogystal â phartneriaid statudol eraill a chyrrff anlywodraethol. Gobeithiwn y bydd y partneriaethau hyn yn helpu i gasglu data ar gyfer adroddiadau tebyg i hwn yn y blynyddoedd sydd i ddod, gan fod ein gwaith gyda'n gilydd yn bwysicach nag erioed wrth i ni oll ymdrechu i sicrhau safonau uchel i les anifeiliaid.



Steve Carter

¹www.politicalanimal.org.uk/wales

²<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/pets/cawes/?skip=1&lang=cy>

³<http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/compendia2009/110224/?skip=1&lang=cy>

DANGOSYDDION LLES CŴN

RHAGAIR	02
CYFLWYNIAD	03
YSTADEGAU RSPCA CYMRU	04
YMWYBYDDIAETH Y CYHOEDD	07
CŴN STRAE	09
BRIDIO CŴN BACH	11
ERLYNIADAU	13
LLOCHESAU	14
EWTHANASIA	15
CŴN NAD OES AR NEB EU HEISIAU	17
CŴN PERYGLUS A CHŴN STATWS	19
MILGWN	20

Tachwedd 2012

Llun y clawr: Joe Murphy/RSPCA

RSPCA Cymru

10 Cwrt Ty Nant, Treforgan, Caerdydd CF15 8LW

www.rspca.org.uk/wales - politicalanimal.org.uk/wales - facebook.com/RSPCA - [Twitter @RSPCAcymru](https://twitter.com/RSPCAcymru)

Mae'r RSPCA yn helpu anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Rhif elusen gofrestredig: 219099
Drwy roddion gan y cyhoedd yn unig y mae'r RSPCA yn bodoli.

Wedi'i argraffu ar 100% o ddeunyddiau a
ailgylchwyd gan ddefnyddio prosesau sy'n
gyfeillgar i'r amgylchedd



DANGOSYDDION LLES CŴN

www.politicalanimal.org.uk/wales